GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION DRAFFT NAWFED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 9FED TACHWEDD 2007

LLEOLIAD: ESIS – TŶ DYSGU, TREFFOREST GER CAERDYDD

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Helene Mansfield
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Valerie Merriman
Phil Bassett	Jane Morris
Frank Bonello	Suzanne Nantcurvis
Tim Cox	Rosemond Nelson
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Sheila Drayton	Anne Robertson
Mike Edwards	Jane Setchfield
Ian Guy	Sarah Stockford
Anthony Hughes	Jacky Tonge
Angela Jardine	Gwen Williams

Ymddiheuriadau:
Goronwy Jones

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Kevin Pascoe	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Harris	Swyddog Cymorth Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso a Materion Rhagarweiniol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i nawfed cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y câi'r cyfarfod ei gynnal yn ddwyieithog. Ni chafwyd dim ymddiheuriadau cyn y cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd y cyngor ers 1af Tachwedd 2007. Roedd penodiadau'r Cynulliad yn dilyn enwebiadau gan yr undebau athrawon fel a ganlyn:

- Mal Davies (Cadeirydd) – pennaeth, Ysgol Uwchradd Willows, Caerdydd (ailbenodiad)
- Helene Mansfield – pennaeth, Ysgol Gyfun Croesyceiliog
- Tim Cox – athro, Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg
- Michael Edwards – pennaeth, Ysgol Gynradd Maes-y-Coed, Pontypridd (ailbenodiad)

Roedd penodiadau'r Cynulliad yn dilyn enwebiadau gan sefydliadau eraill fel a ganlyn:

- Anne Robertson – Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, Archesgobaeth Gatholig Caerdydd
- Jane Morris – Cyfarwyddwr Dros Dro Llywodraethwyr Cymru
- Philip Bassett – Darlithydd, Deon Dysgu ac Addysgu, Athrofa Addysg Gogledd Ddwyrain Cymru
- Hugh Pattrick – Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru (bydd Hugh yn dechrau fel aelod ar 1af Chwefror 2008 ac felly roedd yn bresennol fel sylwedydd)

Penodiadau a wnaed yn uniongyrchol gan y Cynulliad:

- Jacquie Turnbull (ailbenodiad)
- Ian Guy (ailbenodiad)
- Sheila Drayton (ailbenodiad)
- Jacky Tonge (ailbenodiad)

1.3 Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cynulliad wedi penodi 8 o bobl i'r 9 lle a gedwir i aelodau penodedig yn dilyn enwebiadau. Deellir y bydd y Cynulliad yn ceisio enwebiadau eto gan y sefydliadau er mwyn llenwi'r lle sydd ar ôl.

.

1.4 Creodd penodiad Tim Cox swydd wag yn aelodaeth y Cyngor yn y categori etholedig. Byddai'r Prif Weithredwr yn ysgrifennu yn awr at y person a gafodd y nifer fwyaf ond un o bleidleisiau yn y categori athrawon uwchradd yn etholiadau 2004 gan ei wahodd i gymryd ei le ar y Cyngor hyd 31ain Awst 2008.

1.5 Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu'r sylwedyddion i'r cyfarfod: Judy Moorhouse (Cadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr), Irene Hunter (Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Chyfreithiol, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) ac Yvonne McCool (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon). Hefyd croesawyd y bobl a oedd yn arsylwi o'r oriel gyhoeddus.

1.6 Dywedwyd wrth yr aelodau y câi'r papur ar gyfer eitem Agenda 14 "Ffioedd Cofrestru CyngACC" eu gosod gerbron a'u trafod yn y Sesiwn Breifat.

Eitemau'r Cadeirydd:

1.7 Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi mynd i gyfarfod gyda Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar 17eg Medi 2007. Dywedwyd wrth yr aelodau y bu'r cyfarfod yn gadarnhaol iawn ac y bu'r Gweinidog yn gefnogol. Roedd y Gweinidog wedi derbyn gwahoddiad y Cyngor i gyfarfod â'r aelodau a byddai hyn yn digwydd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 5ed Chwefror 2008.

1.8 Soniodd hefyd am lwyddiant pellach pedwaredd Ddarlith flynyddol Addysg Cymru a gafwyd ar 1af Hydref ac a draddodwyd gan y Farwnes Estelle Morris. Anfonwyd copïau printiedig o'r ddarlith at bob aelod a chân copïau eu dosbarthu i bob ysgol ac i'r rheiny a fu yn y ddarlith. Atgoffwyd yr aelodau bod Shirley Williams wedi cytuno i draddodi darlith 2008.

1.9 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi mynd i'r digwyddiad ymgynghori â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Estyn ar 23ain Hydref 2007 ar ddatblygu methodoleg arolygu i Gymru yn y dyfodol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Cyngor fabwysiadu barn ffurfiol ar y fethodoleg ac y gellid gofyn i'r Pwyllgor Polisi ei datblygu ac wedyn i'r Cyngor ei hystyried a chytuno arni. Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad a'r cynnig.

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Datganodd Phil Bassett ei fuddiant yn eitem Agenda 10 “Fframwaith Datblygiad Proffesiynol”. Byddai’n mynd allan o’r cyfarfod ar yr adeg briodol.

3. Cofnodion Drafft Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10fed Gorffennaf 2007

3.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir. Nid oedd dim diwygiadau i’r cofnodion.

Materion yn codi:

3.2 Nid oedd dim materion yn codi.

4. Derbyn rhybudd o unrhyw faterion y mae’r aelodau eisiau’u codi mewn perthynas â’r eitemau Agenda ‘Gwybodaeth’ (16 i 19)

4.1 Gofynnodd un aelod a fyddai costau uwch swyddogaeth ddisgyblu’r Cyngor yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai hyn yn rhan o’r papur “Ffioedd Cofrestru CyngACC” yn ystod Sesiwn Breifat y Cyngor.

4.2 Ni roddwyd dim rhybuddion eraill.

5. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 5ed Mehefin 2007.

5.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn a dywedodd wrth yr aelodau y byddai pob mater, ond dau, yn cael sylw yn agenda’r cyfarfod.

Materion yn codi:

5.2 Cofnod 7: Strategaeth Gyfathrebu Ddrafft: Dywedwyd wrth yr aelodau bod drafft cychwynnol wedi cael ei drafod gan aelodau’r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi. Roedd darparwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata’r Cyngor wedi bod yn cydweithio’n agos â’r swyddogion i ddatblygu’r ddogfen ymhellach a byddai adroddiad ar hyn yn cael ei roi i’r Pwyllgor Gwaith ar 7fed Rhagfyr 2007 ac yna i’r Cyngor ar 5ed Chwefror 2008.

5.3 Cofnod 9: Cynhadledd Ryngwladol Cynghorau Addysgu 2009: Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau bod aelodau’r Pwyllgor Gwaith wedi dechrau ystyried pa mor ymarferol fyddai i CyngACC gynnal y gynhadledd. Byddai’r swyddogion yn gwneud rhagor o waith ac yn rhoi adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith ar 7fed Rhagfyr 2007 ac yna i’r Cyngor ar 5ed Chwefror 2008

5.4 Gwahoddwyd yr aelodau i godi unrhyw faterion eraill oedd yn codi.

5.5 Cofnod 7.5: Cyfarfod â’r AALlau i drafod cynllun fetio newydd Bichard: Gofynnodd un aelod a fyddai’r cyfarfod â’r AALlau’n cynnwys y nifer fawr o argymhellion a wnaed yn dilyn Adroddiad Bichard. Dywedodd y Cadeirydd y câi’r mater hwn ei drafod fel rhan o eitem Agenda 13: “Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed”.

5.6 Cofnod 9: Cynhadledd Ryngwladol Cynghorau Addysgu 2009: Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch a oedd y Cyngor wedi cytuno ar bolisi ynglŷn â mynd i ddigwyddiadau rhyngwladol yn y dyfodol. Cadarnhawyd y cytunwyd ar hyn yng nghyfarfod y Cyngor ar 4ydd Mai 2006.

5.7 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

5.8 Nid oedd dim materion yn codi.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru 26ain Medi 2007

6.1 Cyflwynodd Frank Bonello y cofnodion hyn a dywedodd fod y tystysgrifau cymhwyster (SAC) wedi cael eu rhoi i'r myfyrwyr a oedd wedi llwyddo i gwblhau eu rhaglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar 30ain Gorffennaf 2007. Yr oedd hyn yn cydymffurfio â'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hefyd anfonwyd tystysgrifau sefydlu at athrawon newydd gymhwyso oedd wedi llwyddo i gwblhau eu blwyddyn sefydlu erbyn y targedau priodol ar gyfer pob sector.

6.2 Aeth ymlaen i ddiolch i Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) a swyddogion y Cyngor am eu gwaith yn y maes hwn.

6.3 Gwahoddwyd yr aelodau i godi unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

6.4 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

6.5 Nid oedd dim materion yn codi.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi 28ain Medi 2007

7.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn yn fyr, gan ddweud wrth yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael sylw yn agenda'r cyfarfod ac eithrio un.

Materion yn codi:

7.2 Cofnod 5: ITET - swyddogaeth y Cyngor: Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at yr eitem lafar a oedd, yn dilyn awgrym gan aelod yng nghyfarfod y Cyngor ar 7fed Chwefror 2007, wedi cael ei hagor i aelodau'r Pwyllgor Polisi ei thrafod. Teimlai'r aelodau y dylai'r Cyngor ddatblygu ei farn ynglŷn â'i swyddogaeth bosibl yn y maes hwn. Gellid llunio hon ar ôl i ragor o waith gael ei wneud gan y swyddogion ac ar ôl trafodaethau pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi ar 13eg Rhagfyr 2007. Câi'r cyfyngiadau deddfwriaethol presennol eu cadw mewn cof a châi adroddiad ei roi i'r Cyngor ar 5ed Chwefror 2008. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y cynnig hwn.

7.3 Nodwyd y cofnodion oedd heb eu cadarnhau.

7.3 Nid oedd dim materion yn codi.

8. Adroddiad ar Ariannu Sefydlu a DPC (GTCW 48/07)

8.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) fraslun byr o'r papur hwn, gan atgoffa'r aelodau fod y Cyngor wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am weinyddu ariannu Sefydlu a DPC yng Nghymru o 1af Medi 2006 ymlaen.

Sefydlu:

8.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y £4.3 miliwn yr oedd y Cyngor wedi'i weinyddu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd paragraffau 5 i 8 y papur yn nodi rhai o'r trafferthion cychwynnol yr oedd swyddogion wedi'u cael yn ystod cyfnod dechreuol y broses newydd, a oedd wedi arwain at gynnig i'r Cyngor symud at fodel ariannu ar sail ysgolion. Dywedodd Hayden Llewellyn fod y problemau cychwynnol hyn wedi gwella'n sylweddol a'u bod yn debyg o barhau i wella gyda'r swyddogion yn cydweithio'n agos gydag ysgolion ac AALlau.

DPC:

8.3 Ers i bapurau'r Cyngor gael eu cyhoeddi, setlwyd rhagor o arian DPC gydag ysgolion, oedd wedi codi'r swm a gâi ei weinyddu gan y Cyngor i bron £1.4 miliwn. Tynnodd sylw at baragraff 15 a nodai fod nifer sylweddol o athrawon wedi hawlio llai na'r swm yr oedd ganddynt hawl iddo, sef £1000. Wedi dweud hynny, roedd swm y tanwariant yn amrywio'n fawr ym mhob achos, ac roedd y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau bod athrawon yng Nghymru yn manteisio ar lawer o arian DPC. Pan gâi ei weinyddu gan AALlau, ychydig o arian a hawliwyd ac ychydig o ymwybyddiaeth ohono oedd.

Arian Grant gan y Cynulliad:

8.4 Gan dynnu sylw at baragraff 19, dywedodd Hayden Llewellyn y byddai angen rhagor o arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac y byddai'r Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y swyddogion i ddweud hynny.

8.5 Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad ac argymhellodd fod y Cyngor yn parhau i gydweithio gyda'r AALlau gan ddefnyddio'r model ariannu presennol.

8.6 Cytunodd yr aelodau â'r cynnig hwn, gan ddweud y gellid adolygu'r broses pe bai angen yn y dyfodol.

8.7 Awgrymodd un aelod y gallai'r Cyngor dargedu unigolion nad oeddent wedi hawlio a chael eu dogn o arian DPC. Sicrhaodd Hayden Llewellyn yr aelodau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud a phwysleisiodd y gwelliant sylweddol a fu ar yr hen drefniadau ariannu DPC a gâi eu gweinyddu gan AALlau unigol.

8.8 Ailgododd aelod arall bryder yr oedd wedi'i godi o'r blaen ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai taliadau ôl-weithredol i ysgolion ar gyfer DPC athrawon achosi problemau â'r gyllideb, ac felly effeithio ar y nifer a fyddai'n hawlio'r arian a oedd fel arall ar gael yn rhwydd.

8.9 Gofynnodd y Cadeirydd a allasai'r dyddiad cau a osodwyd gan y Cyngor, sef 14eg Medi 2007, achosi anawsterau i rai ysgolion ac athrawon. Rhoddwyd sicrwydd bod swyddogion y Cyngor wedi cydweithio'n agos ag athrawon a'u mentoriaid dros yr haf i sicrhau bod modd cadw at yr amserlen. Roedd Hayden Llewellyn yn awyddus i athrawon gael rhybudd yn gynnar am unrhyw weithgareddau anghymwys fel y gellid, gyda chymorth priodol, gwneud newidiadau er mwyn galluogi'r ceisiadau i fod yn gymwys i gael arian gan y Cyngor. Dywedodd nad oedd athrawon wedi lleisio unrhyw bryderon am y dyddiad cau a'r amserlen gyffredinol.

8.10 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

9. Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol (GTCW 49/07)

9.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, atgoffodd Hayden Llewellyn *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau am y £3 miliwn oedd ar gael i'r Cyngor i ariannu DPP athrawon yng Nghymru a gâi ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

9.2 Roedd dwy ran i'r papur. Yn gyntaf rhoddwyd adroddiad cynnydd ar y rhaglen gyllido gyfredol, sef 2007-08, ac yn ail gwahoddwyd sylwadau gan yr aelodau ar y dadansoddiad a wnaed o'r gweithgareddau a ariannwyd gan y Cyngor dros y cyfnod pum mlynedd Ebrill 2002 – Mawrth 2007.

Rhaglen gyllido 2007-08:

9.3 Dywedodd Hayden Llewellyn y llwyddwyd i ddyrannu'r gyllideb, sef £3 miliwn, erbyn 1af Tachwedd 2007. Byddai'r Prif Weithredwr yn ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth Cynulliad Cymru gan ofyn am ragor o arian, a chyn hyn cafwyd trafodaethau anffurfiol cadarnhaol gyda swyddogion.

Lledaenu:

9.4 Tynnwyd sylw'r aelodau at y gweithgareddau lledaenu a oedd yn cael eu hybu a'u galluogi gan y Cyngor yn ystod 2007-08. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y swyddogion yn cydweithio â'r AALlau ac yn cydariannu nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru gyda hwy. Roedd rhagor o ddigwyddiadau ar y cyd â phartneriaid newydd megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Awtistiaeth Cymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar y gweill. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai'r gyllideb o £200,000 a neilltuwyd at ddibenion lledaenu yn 2007-08 yn cael ei defnyddio'n llawn.

Gwerthusiad 5 mlynedd:

9.5 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r dadansoddiad ystadegol o'r gweithgareddau yr oedd y Cyngor wedi'u hariannu, ynghyd â dadansoddiad o'r ymatebion i holiaduron a gyflwynwyd gan athrawon wrth gwblhau eu hawliadau ariannol yn 2006-07.

9.6 Roedd Estyn wedi gwneud gwerthusiad annibynnol o effaith y rhaglen gyllido DPP ar yr athrawon a gymerodd ran, eu hysgolion ac ar godi safonau cyflawniad disgyblion ar sail canlyniadau prosiectau DPP a gwblhawyd yn 2005-06 a chanlyniadau sy'n dod i'r amlwg o brosiectau yn 2006-07. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol iawn a dim ond nifer fach o argymhellion a wnaed. Darparwyd copi i'r aelodau fel Atodiad D i'r papurau.

9.7 Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad ac adleisiodd y sylwadau cadarnhaol a wnaed yn adroddiad Estyn. Llongyfarchwyd y swyddogion ar lwyddiant y rhaglen. Gwahoddwyd cwestiynau gan yr aelodau.

9.8 Croesawodd un aelod y cynnydd a wnaed â'r rhaglen ac aeth ymlaen i leisio pryder ynglŷn â defnyddio bwrsarïau'r Cyngor at flaenoriaethau eraill ysgolion, yn enwedig y rhai oedd yn gysylltiedig â'r newidiadau i gwricwlwm ysgolion a'r cyfnodau allweddol. Roedd yn awyddus i agwedd gadarn gael ei chymryd ar geisiadau o'r fath gan yr ymddangosi fod rhai athrawon yn cael eu harwain i hawlio arian DPP er budd yr ysgol yn hytrach na'u datblygiad hwy eu hunain. Dywedodd y Cadeirydd yr ymddangosi fod y gyllideb o £3 miliwn a gâi ei gweinyddu gan y Cyngor yn fwy hygyrch ac effeithiol i athrawon yng Nghymru na'r £40 miliwn yn y Gronfa Ysgolion Gwell (CYG). Teimlai aelod arall bod y Cyngor, tra'i fod yn parhau i gefnogi cyrsiau 'lefel isel', yn cydoddef y ffordd yr oedd ysgolion/penaethiaid yn defnyddio'r gyllideb DPP a gâi ei gweinyddu gan y Cyngor fel ffordd o ariannu cyrsiau hyfforddi statudol.

9.9 Cafwyd trafodaeth ac roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn: yn dilyn y newid yn arian y Gronfa Ysgolion Gwell, ymddangosai bellach fod y Cyngor wedi'i 'ddal yn y canol' a'i bod yn ddealladwy i ryw raddau y byddai rhai penaethiaid yn annog defnyddio arian o le bynnag yr oedd ar gael i hyfforddi eu staff; hoffai'r aelodau godi'r pwnc hwn yn ystod y cyfarfod arfaethedig â'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 5ed Chwefror 2008; dylid casglu enghreifftiau o 'gamddefnyddio'r gronfa i hwyluso trafodaeth ar sail tystiolaeth; gellid ystyried tynhau'r meini prawf ar gyfer gweithgareddau cymwys; a gallai'r Cyngor ymchwilio i gategori ychwanegol o arian fel y nodwyd yn adroddiad Estyn (tudalen 11, paragraff 40).

9.10 Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau fod yna anawsterau i dîm mewn swyddfa allu asesu'r ysgogiad y tu ôl i bob cais unigol. Felly roedd yn bwysig sicrhau bod penaethiaid yng Nghymru'n gwybod bod yr arian oedd ar gael i athrawon ar gyfer DPP unigol yn arbennig ac na ddylid ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Roedd ef ei hun yn ymwybodol, trwy'r adborth a gynigiwyd gan athrawon mewn seminarau Fframwaith

Datblygiad Proffesiynol, bod rhai penaethiaid wedi rhoi pwysau wrth ddarbwyllo athrawon i ddilyn rhai cyrsiau penodol er mwyn gwireddu blaenoriaethau ysgolion. Roedd y rhagair gan y Prif Weithredwr yn y rhifyn newydd o Addysgu Cymru yn cynnwys apêl i gadw'r gronfa at y diben y'i bwriadwyd iddo.

9.11 Atgoffodd Hayden Llewellyn yr aelodau am lwyddiant sylweddol y rhaglen, gan ddweud bod y swyddogion wedi cydweithio'n agos â grwpiau nad oeddent wedi cael budd o arian DPP o'r blaen, megis athrawon cyflenwi, athrawon peripatetig ac athrawon yng Ngogledd a De Ddwyrain Cymru. Er y cydnabuwyd ei bod yn bosibl bod rhywfaint o arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau hyfforddi 'cynnal a chadw', roedd yn anodd asesu lle byddai un athro'n fodlon ei gynnwys fel rhywbeth sydd o fudd i'w ddatblygiad personol ac na fyddai'r llall ddim. Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a gâi eu hariannu gan y cynllun yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

9.12 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod adroddiad Estyn. Cytunodd yr aelodau nad oedd bob amser yn bosibl mesur buddion uniongyrchol DPP o ran safonau disgyblion. Dylai'r Cyngor gydweithio ag Estyn i ddylanwadu ar ei safbwynt ynglŷn â mesur llwyddiant. Swyddogaeth i'r Cyngor fyddai rhoi arweiniad i athrawon ynglŷn â sut y gallent ddatblygu eu sgiliau myfyrio. Teimlai un aelod fod yna lawer o waith i'w wneud eto o ran ymgysylltu ag ysgolion ac y dylai'r Cyngor barhau i anelu at yr hawl cyffredinol i athro gael arian ar gyfer ei DPP unigol.

10. Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (GTCW 50/07)

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad hwn a oedd yn nodi cyngor y Cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar linynnau 3 a 4 Fframwaith Datblygiad Proffesiynol; adroddiad cynnydd ar y cynllun peilot Athro Siartredig a gwahoddodd sylwadau ar fanyleb tendr ddrafft gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Athro Siartredig.

10.2 Roedd hyn yn unol ag un o swyddogaethau'r Cyngor a nodir yn Neddf 1998, sef cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol athrawon ar wahoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y cafwyd llythyr cydnabyddiaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar ôl cael cyngor y Cyngor ar linynnau 3 a 4 y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Roedd y llinynnau hyn wedi canolbwyntio ar gofnodi datblygiad proffesiynol athrawon a hunan-fyfyrio ar hyn gan athrawon (llinyn 3) a sicrhau ansawdd datblygiad proffesiynol athrawon a'i ddarparwyr (llinyn 4).

10.4 Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau fod y ddogfen gyngor ar gyfer llinynnau 3 a 4 i fod i gael ei chyhoeddi a'i dosbarthu erbyn diwedd mis Tachwedd 2007. Aeth ymlaen i sôn am gynnydd y cynllun peilot Athro Siartredig, gan ddweud bod y modiwl peilot cyntaf *Datrys wrth Drafod* yn mynd rhagddo. Roedd y modiwl hwn yn cael ei ddarparu trwy gydweithrediad rhwng Athrofa Addysg Uwch Abertawe, Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Atgoffodd yr aelodau bod pryder wedi cael ei leisio yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â'r angen i athrawon a oedd wedi mynegi diddordeb yn y cynllun peilot Athro Siartredig ond a fu'n aflwyddiannus gael eu trin mewn modd sensitif. Gan dynnu sylw at baragraff 9 y papur, sicrhaodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod hyn wedi cael ei wneud.

10.5 Codwyd mater arall yn y cyfarfod diwethaf. Mewn ymateb, roedd darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog yn ofyniad yn y modiwl peilot oedd ar ôl o'r enw *Arwain y Dysgu* a gâi ei ail-dendro ym mis Tachwedd 2007.

10.6 Dywedodd fod y Cyngor wedi cynnal cyfarfod o holl ddarparwyr y modiwlau Athro Siartredig ar 6ed Tachwedd 2007 ac y bu hwn yn llwyddiannus.

10.7 Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau ar y gwerthusiad annibynnol o'r cynlluniau peilot. Tynnwyd sylw at Atodiad F y papur gan ei fod yn darparu Gwahoddiad i Dendro a manyleb drafft.

10.8 Yn olaf, dywedodd ei fod, yn dilyn cais Jane Davidson i'r Cyngor ymchwilio i'r posibilrwydd o gydariannu'r rhaglen Athro Siartredig gydag AALlau ar ôl iddi gael ei phrif ffrydio, wedi mynd i gyfarfod cychwynnol gyda Phwyllgor Gwaith CCAC, a fu'n gadarnhaol yn gyffredinol ar y mater hwn. Byddai rhagor o drafod a châi adroddiadau eu cyflwyno i'r aelodau.

10.9 Aeth Phil Bassett allan o'r cyfarfod ar yr adeg hon.

10.10 Cwestiynodd un aelod y gyfradd 'gwrthgilio' o'r rhaglen beilot hyd yn hyn. Atebodd Hayden Llewellyn *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), gan ddweud fod posibilrwydd 'gwrthgilio' wedi peri pryder i'r swyddogion ac o'r herwydd cafwyd cytundeb gan ddarparwyr y modiwlau i dderbyn ychydig mwy o ymgeiswyr ar bob modiwl ar y dechrau er mwyn caniatáu am hyn.

10.11 Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd fraslun o'i phresenoldeb yn ail ddiwrnod modiwl *Datrys wrth Drafod* yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe. Dywedodd ei bod wedi cael ei sicrhau bod y model yn cyd-fynd â'r cysyniad a ddatblygwyd gan y Cyngor a gwelwyd bod yr ymgeiswyr yn datblygu â chryn frwdfrydedd. Yn benodol, ceisiodd a chafodd sicrwydd ynglŷn ag a oedd datblygu sgiliau arwain yn rhan annatod o'r modiwl.

10.12 Gofynnodd un aelod a allai'r penderfyniad i gyfuno'r modiwl a ail-dendrwyd *Arwain y Dysgu* gyda darpariaeth Gymraeg fod yn ormod i'w ddisgwyl. Seiliwyd y sylw ar y ffaith nad oedd y Cyngor wedi cael unrhyw dendrau gan bartneriaethau am y modiwl *Arwain y Dysgu* yn yr ymarfer tendro cyntaf, a, fel y trafodwyd gan yr aelodau o'r blaen, nad oedd darpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn y rhaglen beilot wedi cael ei chynnig mor helaeth ag y byddai dyn yn hoffi. Fodd bynnag, roedd y Prif Weithredwr yn disgwyl i fwy o fodiwlau arweinyddiaeth ganol gael eu cynnig ar ôl i'r rhaglen Athro Siartredig gael ei phrif ffrydio. Ar gyfer y cynllun peilot, esboniodd fod pryderon yr aelodau a godwyd yn eu cyfarfod diwethaf ar 10fed Gorffennaf 2007 wedi cael sylw wrth gyfuno'r ddau ofyniad.

10.13 Gan fynd yn ôl at y gwahoddiad i roi sylwadau ar y gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot Athro Siartredig, awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd y gallai'r asesiad o'r modd yr oedd y rhaglen wedi galluogi athrawon i ddatblygu gael ei ddatblygu ym mharagraffau 2.3 a 2.4. Nid oedd gan unrhyw aelodau eraill unrhyw newidiadau penodol ar yr adeg hon. Fodd bynnag, dywedwyd wrth yr aelodau y gellid trosglwyddo sylwadau manwl i Hayden Llewellyn cyn 19eg Tachwedd fel y gellid cynnwys y newidiadau cyn cyhoeddi'r gwahoddiad i dendro.

11. Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Drafft CyngACC (GTCW 51/07)

11.1 Cyflwynodd Kevin Pascoe (*Rheolwr Polisi a Chynllunio)* y papur hwn a roddodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar ddatblygiad Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (CCA) y Cyngor, a oedd i gael ei gyhoeddi a'i weithredu erbyn 3ydd Rhagfyr 2007.

11.2 Ar ôl i'r swyddogion wneud astudiaeth gwmpasu gychwynnol o effaith bosibl y CCA, daeth yn amlwg y byddai yna gryn effaith ar draws gweithrediadau'r Cyngor. Roedd hyn oherwydd na fyddai'r cynllun yn gyfyngedig i'w swyddogaeth fel cyflogwr a phrynwr gwasanaethau, ond y byddai hefyd yn berthnasol i'r ystod lawn o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl sy'n cofrestru ar hyn o bryd ac a allai gofrestru yn y dyfodol ac i'r cyhoedd. Roedd y Prif Weithredwr wedi gofyn am

ohirio'r dyddiad gweithredu hyd tua diwedd chwarter cyntaf 2008. Byddai hyn wedi caniatáu ymgysylltu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid perthnasol ynglŷn â datblygu cynllun cwbl gynhwysol. Fodd bynnag, ni chytunodd yr Adran Gwaith a Phensiynau i hyn.

11.3 Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai datblygu a gweithredu'r cynllun yn gorfod dilyn amserlen gaeth o'r herwydd. Roedd y swyddogion wedi gwneud ymchwil helaeth a oedd yn cynnwys ystyried cynlluniau oedd yn bodoli eisoes. Dywedodd Kevin Pascoe fod angen ymgynghori â chymuned amrywiol o athrawon a sefydliadau anabledd cynrychioladol. Roedd grŵp cyfeirio athrawon anabl wedi cael ei ganfod. Fodd bynnag, roedd yn profi'n anos nag a obeithiwyd i ymgysylltu ag athrawon ac ar adeg y cyfarfod, dim ond wyth o athrawon oedd wedi cytuno i gymryd rhan. Roedd y swyddogion yn ymwybodol y byddai o'r gwerth mwyaf pe bai'r grŵp yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau anabledd. Bernid bod yr aelodaeth bresennol yn gynrychioladol o bobl â namau synhwyraidd ond nid o bobl â dyslecsia/ dyspracsia.

11.4 Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno ar 19eg Medi 2007 i Grŵp Llywio gael ei ffurfio i oruchwylio datblygiad y cynllun. Ymysg ei aelodau oedd dau aelod, sef Tîm Cox (Cadeirydd) a Nichola Jones (bellach yn gyn-aelod). Gweddill aelodau'r Grŵp oedd pedwar o bobl o wahanol grwpiau rhanddeiliaid/defnyddwyr anabledd. Dywedodd Kevin Pascoe y bu rhywfaint o anhawster wrth gynnull y Grŵp Llywio oherwydd problemau argaeledd. Fodd bynnag, yn y cyfamser bu'r cyfraniad o gyfarfod cyswllt gydag undebau athrawon yn ddefnyddiol iawn.

11.5 Cynigiwyd i'r Cyngor gyhoeddi CCA dros dro erbyn 3ydd Rhagfyr 2007, a fyddai wedi cynnwys cyfraniad cyfyngedig iawn gan bobl ag anableddau, ond gydag ymrwymiad i gyhoeddi cynllun dan arweiniad pobl anabl erbyn mis Gorffennaf 2008. Cynigiwyd, oherwydd yr amser byr oedd ar gael, i'r penderfyniad ar fabwysiadu'r CCA dros dro gael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a fyddai'n ymgynghori â'r Pwyllgor Gwaith. Yna gwahoddwyd cwestiynau gan yr aelodau cyn cael trafodaeth ar y cynnig.

11.6 Dywedodd un aelod ei bod yn ddiddorol yr ymddangosai nad oedd athrawon ag anableddau eisiau cynnig eu hunain. Cwestiynodd aelod arall y dulliau a ddefnyddiwyd i gynnig gwahoddiadau i'r grŵp cyfeirio. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ymholiadau wedi cael eu gwneud trwy'r undebau athrawon, trwy gysylltiadau cyfrinachol a thrwy ddefnyddio'r wasg rywfaint. Gwahoddwyd rhagor o awgrymiadau. Dywedodd Kevin Pascoe nad oedd unrhyw gorff yn bodoli fel llais i athrawon anabl yn y DU, yn wahanol i broffesiynau eraill. Eto i gyd, roedd ystadegau ar gael o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a ddywedai fod gan fwy na 12% o athrawon uwchradd a mwy na 9% o athrawon cynradd anableddau neu salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar waith.

11.7 Cafwyd trafodaeth am y cynllun, a'r prif bwyntiau oedd: er efallai bod gan y Cyngor fanylion ar ei Gofrestr am athrawon oedd wedi dweud bod ganddynt anabledd, y byddai'n annerbyniol defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu ag athrawon yn uniongyrchol gan eu gwahodd i gymryd rhan yn y grŵp cyfeirio athrawon; gallai athrawon wrthwynebu defnyddio'r term 'athro anabl' ac y dylai'r Cyngor fod yn ofalus gyda'r derminoleg a ddefnyddiwyd oedd yn sensitif iawn. Holwyd am y cyfnod o amser a ganiatawyd i'r Cyngor gael ei Gynllun Cydraddoldeb Anabledd yn barod i'w weithredu.

11.8 Sicrhaodd Kevin Pascoe yr aelodau y gofynnwyd ar unwaith am ganllawiau gan Anabledd Cymru ar y derminoleg a gâi ei ystyried yn dderbyniol wrth sôn am anableddau a bod hon wedi cael ei mabwysiadau gan y swyddogion.

11.9 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad a chytunasant y dylai'r cyfrifoldeb am gytuno i fabwysiadu'r cynllun gael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

12. Cyfarwyddeb yr UE ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol (DIRECTIVE 2005/36/EC) (GTCW 52/07)

12.1 Wrth gyflwyno'r papur sicrhaodd y Prif Weithredwr yr aelodau y gellid croesawu'r rhan fwyaf o'r gyfarwyddeb. Rhoddwyd adroddiad cychwynnol ar Gyfarwyddeb yr UE yn y Pwyllgor Cofrestru ar 26ain Medi 2007 pan gytunwyd â nifer o bwyntiau gweithredu. Roedd y rhain wedi cael eu cyflawni ac roedd y canlyniadau wedi'u cynnwys yn y papur.

12.2 Cyflwynwyd Cyfarwyddeb yr UE ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Directive 2005/36/EC) ar 20fed Hydref 2007. Roedd y gyfarwyddeb yn tynnu ynghyd wahanol gyfarwyddebau yn ymdrin ag amrywiaeth o broffesiynau yn un ddogfen y bernid, at ei gilydd, y byddai'n creu dull unffurf a chyson o gydnabod yn gilyddol gymwysterau pob proffesiwn ac, yn y pen draw, modd i awdurdodau perthnasol, megis Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, gyfathrebu â'i gilydd ar draws gwledydd yr UE.

12.3 Fodd bynnag, roedd y gyfarwyddeb wedi cyflwyno maes newydd, sef 'darpariaeth gwasanaethau dros dro'. Gyda hon, os yw athro mudol eisiau gweithio dros dro mewn gwlad arall, rhaid rhoi cofrestriad iddo ar ôl iddo gyflwyno rhai dogfennau penodol. Ni fyddai'r awdurdod dynodedig, megis Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn gallu gofyn i'r unigolyn am ddogfennau ychwanegol na chodi ffi cofrestru arno. Yr hyn sy'n hollbwysig yw na fyddai'r Cyngor yn gallu defnyddio'r maen prawf addasrwydd gydag athro mudol oedd yn ceisio gweithio dros dro yng Nghymru. Y mater hwn oedd yr un y gwahoddwyd yr aelodau i'w drafod.

12.4 Rhoddwyd copi i'r aelodau o ymateb y Cyngor i ymgynghoriad yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) ar y Rheoliadau sy'n cyflwyno Cyfarwyddeb yr UE a llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oedd yn nodi'r pryderon ynglŷn â materion amddiffyn plant.

12.5 Wrth dynnu sylw at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef *y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed,* atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn bwnc o bwys i Lywodraeth y DU ar ôl llofruddiaethau Soham. Dywedodd fod dibynadwyedd cadw cofnodion ar draws yr UE yn amrywio'n sylweddol, rhywbeth a allai beri pryder, ond y byddai'r Cyngor yn gallu gwirio gyda'r awdurdod perthnasol yng ngwladwriaeth yr athro mudol i weld a oedd unrhyw 'waharddiad' mewn grym.

12.6 Aeth ymlaen i roi adroddiad ar y camau a gymerwyd hyd yn hyn. Anfonwyd llythyr at bob Cyfarwyddwr AALl i nodi'r bwlch hwn yn y ddeddfwriaeth ac i egluro'r camau y byddai'r Cyngor yn eu cymryd pe bai mudwr yn dod i broffesiwn addysgu Cymru o dan y categori 'darpariaeth gwasanaethau dros dro', a chyfrifoldebau'r AALl o dan y ddeddfwriaeth bresennol wrth gyflogi aelod newydd o staff. Hefyd dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cyngor wedi gofyn i'w asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus, Merlin Marketing and Public Relations, godi'r mater yn y cyfryngau.

12.7 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r sefyllfa yr oedd y Cyngor yn ei wynebu ar ôl i'r gyfarwyddeb gael ei chyflwyno, gan sicrhau'r aelodau nad oedd neb o'r fath, hyd yn hyn, wedi dod at y Cyngor o dan y categori 'darpariaeth gwasanaethau dros dro'. Fodd bynnag, roedd yn dal i bryderu bod y gyfarwyddeb yn creu bwlch difrifol yn y ddeddfwriaeth a allai ganiatáu i unigolyn gymryd swydd fel athro cofrestredig yng Nghymru ac y gellid darganfod yn ddiweddarach bod yr unigolyn hwnnw'n anaddas. Yna gwahoddwyd cwestiynau gan yr aelodau.

12.8 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar nifer o bwyntiau. Yn gyntaf, roedd swyddogion y DCSF wedi egluro bod 'dros dro' yn golygu hyd at 12 mis. Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd rhan mewn datblygu'r gyfarwyddeb er mwyn sicrhau yr ymdriniwyd â chyfrifoldebau Cyngor Addysgu

Cyffredinol Cymru, h.y. addasrwydd, ac a oedd yna oblygiadau i athrawon oedd yn symud rhwng Cymru a Lloegr.

12.9 Aeth yr aelodau ymlaen i wneud nifer y sylwadau, sef: y gallai gymryd hyd at flwyddyn i gwblhau ymholiadau gyda'r awdurdod perthnasol cyn y gallai mudwr ddechrau gweithio fel athro; y bu'n bwysig sicrhau bod Cyfarwyddwyr 22 AALl Cymru'n gwybod am oblygiadau'r gyfarwyddeb ac y dylid trosglwyddo hyn i ysgolion; er yr ymddangosai mai nifer fach iawn o fudwyr a allai wneud cais o dan y categori hwn, dylai'r Cyngor fod yn barod am bosibilrwydd mewnlifiad mwy o weithwyr mudol, a'r anghysondeb na fyddai modd codi ffi cofrestru yn wahanol i'r ffi a dalwyd gan athrawon eraill oedd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor.

12.10 Dywedodd Hayden Llewellyn ((*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) fod yna rwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i wneud gwiriadau Datgeliadau Manwl ar bawb a oedd yn gweithio mewn ysgol felly byddai hyn yn darparu amddiffyniad. Dywedodd y dylai 'darpariaeth gwasanaeth dros dro' fod yn berthnasol i fudwyr oedd yn gweithio fel athrawon ar sail dros dro go iawn ac nid y rhai oedd yn ceisio am y contractau blwyddyn oedd yn gyffredin yn y proffesiwn.

12.11 Awgrymodd un aelod y dylai swyddogion y Cyngor gydweithio â swyddogion y DCSF i fynd i'r afael â diffyg 'cydgysylltiad' y gyfarwyddeb o ran y pryderon a godwyd gan ymchwiliad Bichard a'r *Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed* a ddaeth yn sgil hwnnw. Mynegodd bryder ynglŷn â'r Cyngor yn rhedeg ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a theimlai y dylai'r mater gael ei ddatrys gan swyddogion y Llywodraeth.

12.12 Cytunodd yr aelodau y dylai swyddogion y Cyngor barhau i fonitro'r sefyllfa'n agos o ran unrhyw fudwyr a wnâi gais am waith yng Nghymru o dan y rheol 'darpariaeth gwasanaeth dros dro' ac o ran datrys y bwlch yn y ddeddfwriaeth. Roedd y Pwyllgor Cofrestru a'r Cyngor i gael adroddiadau am y datblygiadau yn unol â hynny.

13. Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (GTCW 53/07)

13.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, tynnodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sylw at baragraff 12 a nodai oblygiadau'r trefniadau newydd i'r Cyngor.

13.2 Yn dilyn ymchwiliad Bichard i'r llofruddiaethau yn Soham, pasiwyd y *Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed,* gan gyflwyno'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 8fed Tachwedd 2007 a gosododd hyn y sylfaen am y Cynllun Fetio a Gwahardd newydd a fyddai, o hydref 2008 ymlaen, yn rheoli ac yn diweddaru'r trefniadau presennol ar gyfer Rhestr 99 a rhestri eraill sy'n rhestru'r bobl na ddylent weithio gyda phlant nac oedolion agored i niwed.

13.3 Dywedodd Hayden Llewellyn wrth yr aelodau y câi nifer o newidiadau eu gwneud i weithrediadau'r Cyngor yn dilyn cyflwyno'r trefniadau newydd. Disgwylid y byddai yna broblemau cychwynnol gan fod yna lawer o fanylion i'w penderfynu'n derfynol cyn y dyddiad gweithredu. Roedd y Pwyllgor Cofrestru a'r Cyngor i gael adroddiadau ar y rhain yn unol â hynny.

13.4 Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Cyngor yn cynnal seminar ar 19eg Tachwedd 2007 i gynrychiolwyr adnoddau dynol a swyddogion eraill o'r AALlau i ymdrin â materion rheoliadol cyffredinol. Byddai'r trefniadau ar gyfer y Cynllun Fetio a Gwahardd yn cael sylw manwl. Roedd y swyddog cyfrifol o Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael ei wahodd i roi anerchiad am y trefniadau. Hefyd sicrhaodd Hayden Llewellyn yr aelodau y byddai materion yn ymwneud â Chyfarwyddeb yr UE ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol hefyd yn cael sylw.

13.5 Gofynnodd un aelod a oedd canllawiau pellach ar gael i gyflogwyr. Nid oedd y swyddogion yn gallu rhoi'r wybodaeth hon. Gofynnodd aelod arall am i swyddog y Cynulliad fod ar gael i roi cyflwyniad anffurfiol i'r aelodau mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol a chytunwyd y câi trefniadau eu gwneud.

13.6 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

14. Ffioedd Cofrestru CyngACC (GTCW 54/07)

14.1 Gohiriwyd yr eitem hon i'w thrafod yn y Sesiwn Breifat.

15. Ethol aelodau sy'n Athrawon i'r Cyngor 2008– adroddiad cynnydd (GTCW 55/07)

15.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) gyflwyniad byr ar yr adroddiad hwn. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y trefniadau ar gyfer Ethol Aelodau sy'n Athrawon i'r Cyngor 2008 yn mynd rhagddynt yn foddhaol.

15.2 Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999 (fel y'u diwygiwyd) yn darparu i'r Cyngor ethol 12 aelod yn unol â'i Gynllun Ethol. Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r amserlen ar gyfer cynnal etholiadau 2008 yn ei gyfarfod ar 7fed Chwefror 2007 ac wedi hynny wedi cymeradwyo'r Cynllun Ethol yn y cyfarfod ar 3ydd Mai 2007.

15.3 Ar ôl cyhoeddi papurau'r Cyngor roedd rhagor o gamau wedi cael eu cwblhau. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ERS (Electoral Reform Services) wedi cael y papurau enwebu'r diwrnod hwnnw a bod aelodaeth y panel apeliadau wedi'i chytuno. Byddai'n cynnwys Mal Davies, Jacquie Turnbull ac Ian Guy.

15.4 Aeth ymlaen i ddweud bod 400 o athrawon wedi penderfynu peidio â manteisio ar eu hawl i bleidleisio yn yr etholiad. O'r rhain, roedd y mwyafrif yn athrawon wedi ymddeol.

15.5 Yn olaf, atgoffwyd yr aelodau y byddai athrawon yng Nghymru'n gallu pleidleisio trwy wefan y Cyngor am y tro cyntaf, cyfleuster a oedd wedi cael ei gynnig yn llwyddiannus gan gynghorau addysgu eraill.

15.6 Croesawodd y Cadeirydd y wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiad. Cytunodd yr aelodau ac nid oedd unrhyw gwestiynau.

16. Proffesiynoli'r sector Dysgu Gydol Oes (GTCW 56/07)

16.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn i'r aelodau, gan ddweud bod y Cyngor, yn ymarferol, wedi gorfod dilyn amserlen gaeth iawn i lunio ymateb i ymgynghoriad LLUK ar y Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer y Sector Dysgu Gydol Oes (Sector Skills Agreement for the Lifelong Learning Sector – *developing solutions*).

16.2 Roedd y Pwyllgor Polisi wedi cytuno ei bod yn bwysig i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad ac y dylai'r cyflwyniad ganolbwyntio ar yr ymateb a roddwyd ynghynt i adolygiad Webb o Addysg Bellach. Cyflwynwyd ymateb y Cyngor, yn brydlon, ar 28ain Medi 2007 a darparwyd copi yn Atodiad B i'r papur er gwybodaeth. Atodiad A oedd y ddogfen ymgynghori ei hun.

16.3 Er mai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru, nid oes ganddo ddim cyfrifoldeb am athrawon,

tiwtoriaid a hyfforddwyr sy'n gweithio yn y meysydd dysgu gydol oes ôl-orfodol, sef: Addysg Bellach, y sector oedolion a chymunedol a'r sector dysgu seiliedig ar waith.

16.4 Roedd y papur yn gwahodd sylwadau cychwynnol yr aelodau ar reoleiddio posibl ar y gweithlu dysgu gydol oes yng Nghymru a chynnig i lunio safbwynt i'r Cyngor. Esboniodd y Prif Weithredwr, er y cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gyda Dysg ac LLUK ym mis Mawrth 2007, roedd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd wedi dweud yn ei *Hadroddiad ar Benderfyniad y Gweinidog, "work should begin to explore the legislative and delivery requirements needed to extend the current role of the GTCW to act as the body responsible for the licence to practice for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector".*

16.5 Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried a allai'r Cyngor gael swyddogaeth ehangach o ran y gweithlu dysgu gydol oes ac a ddylid gofyn i'r Pwyllgor Polisi lunio safbwynt drafft.

16.6 Cafwyd trafodaeth. Dywedodd un aelod y croesawyd y posibilrwydd y gallai'r Cyngor gael swyddogaeth ffurfiol yn y sector dysgu gydol oes. Dywedodd fod rhywfaint o ddryswch yn y sector ar hyn o bryd a oedd yn cynnwys diffyg mesur cydraddoldeb ar gyfer cydnabyddiaeth i'r gweithlu addysg bellach; anghysondebau o ran achredu cymwysterau Cymru a Lloegr a materion eraill yn ymwneud â statws cymwysterau.

16.7 Teimlai aelod arall, er bod y cysylltiad â'r sector 14-19 yn gwneud synnwyr, byddai gweithredu cyfrifoldeb o'r fath yn ymarferol yn gymhleth ac yn gofyn am ystyriaeth fanwl. Yn olaf, ymddangosai fod trafodaethau polisi ar y mater hwn yn amserol gan fod y sector ôl-orfodol yn destun llawer o drafod ar hyn o bryd.

16.8 Cytunodd yr aelodau i ofyn i'r Pwyllgor Polisi lunio safbwynt a rhoi adroddiad wedyn i'r Cyngor.

17. Unrhyw fusnes arall

17.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn digwydd ddydd Mawrth 5ed Chwefror 2008
yng
Ngwesty Hilton, Casnewydd